**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/HL/1006/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Hydref 2014

Annwyl Ann,

**Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG - GWAITH CRAFFU CAM 1 AR FIL ADDYSG A CHYNHWYSIANT ARIANNOL (CYMRU)**

Ar ôl bod yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 1 Hydref, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r aelodau am y canlynol:

- Y ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) a rhaglenni cymorth sydd ar gael ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r rhaglen astudio Mathemateg;
- Lefelau'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer HCA a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cymryd i ystyriaeth y safonau gwell yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r TGAU rhifedd;
- Yr amserlen ar gyfer gwerthuso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Hoffwn atgoffa'r Pwyllgor fod mwyafrif helaeth yr athrawon y mae angen eu targedu eisoes yn rhan o'r gweithlu. Er enghraifft, yn 2014/15 roedd 1,600 o fyfyrwyr wedi'u derbyn ar gyfer HCA, ac roedd bron i 38,000 o athrawon cofrestredig erbyn mis Mawrth 2014. Yn amlwg bydd cyfran uwch o'r cymorth yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Serch hynny, yr ateb i'r cwestiwn yn ymwneud â HCA yw bod gan ddarparwyr HCA yr hyblygrwydd i ddylunio a darparu eu cyrsiau o dan y fframwaith statudol presennol ar gyfer darparu HCA yng Nghymru, gan gynnwys safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) a'r gofynion ar gyfer darparu cyrsiau HCA, a hynny gan gymryd i ystyriaeth gofynion y cwricwlwm yng Nghymru, fframweithiau polisi cysylltiedig a datblygiadau polisi diweddar wrth iddynt ddod i'r amlwg gan gynnwys cynnwys yn ymwneud â'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Caiff darpariaeth HCA prif ffrwd ei ddarparu drwy'r prifysgolion sydd wedi'u hachredu i ddarparu cyrsiau HCA. O dan strwythur cyllido addysg uwch, caiff yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi cyrsiau HCA eu hariannu drwy ffioedd dysgu a'r grant ffioedd dysgu. Yn anffodus, ni allaf nodi'r union gostau yn sgil effaith y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r TGAU ar ddarpariaeth HCA.

Fodd bynnag, mae'r darparwyr HCA eu hunain wedi hysbysu Llywodraeth Cymru na fyddai llawer o le, os o gwbl, ar gyfer unrhyw beth penodol ar ein cymwysterau newydd o ystyried y ffaith mai ychydig bach o amser a gaiff athrawon dan hyfforddiant yn y dosbarth.

Mae yna ffrydiau cyllido mwy penodol ar gyfer darparu datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, sef:

| **Enw** | **Diben** | **Swm** |
|---|---|---|
| Y rhaglen grantiau addysg - e.e. Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | Cyflawni blaenoriaethau addysg cenedlaethol h.y. llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae consortia rhanbarthol yn defnyddio'r grant hwn i gefnogi'r broses gyflawni - ni ellir ei rannu'n benodol yn ôl datblygiad proffesiynol parhaus. | £37 miliwn yn 2013/14 (gan gynnwys cyllid cyfatebol gan yr Awdurdodau Lleol). |
| Y Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd | I ategu capasiti a gallu consortia addysg rhanbarthol i ddarparu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn y tymor hir. | Tua £14.4 miliwn dros 4 blynedd. £4.8 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer 2014-15. |
| Cymorth gyda'r broses o weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol | Adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu'r consortia a'r ysgolion i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. | £400,000 - cost un tro. |
| Rhaglen Gymorth TGAU | Gweithio gyda'r consortia i sicrhau bod ysgolion yn harod ar gyfer y TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd, sy'n dechrau ym mis Medi 2015. | Hyd at £3 miliwn y flwyddyn am ddwy flynedd. |
| Grant y Cyfnod Sylfaen | Caiff rhan o'r grant hwn ei neilltuo i hyfforddi ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ar flaenoriaethau allweddol. | Tua £2 filiwn yn 2014-15. |

Cynigiais ddarparu amserlen ar gyfer gwerthuso'r broses o weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Darperir amserlen isod. Fe welwch o'r amserlen bod y gwaith maes yn dal i fynd rhagddo, ac felly nid oes modd i mi ragweld y canfyddiadau nac awgrymu beth fydd y canlyniadau.

| **Carreg filltir yn ôl blwyddyn ariannol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| *Blwyddyn 2* | |
| Cynhyrchu dulliau gwerthuso ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid | 31/07/2014 |
| Cwblhau'r gwaith maes | 31/12/2014 |
| Llunio adroddiad blwyddyn 2 | 27/02/2015 |
| *Blwyddyn 3* | |
| Cynhyrchu dulliau gwerthuso ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid | 31/07/2015 |
| Cwblhau'r gwaith maes | 30/09/2015 |
| Llunio adroddiad blwyddyn 2 | 30/11/2015 |
| *Blwyddyn 4* | |
| Cwblhau'r gwaith o ddadansoddi'r gwaith maes | 31/05/2016 |
| Llunio'r adroddiad terfynol | 30/06/2016 |

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac yn egluro'r sefyllfa ar y materion dan sylw i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills